Methdaliad

Os oes gennych broblem gyda dyled, efallai y gallwch ei datrys mewn sawl gwahanol ffordd. Un o'r ffyrdd hyn yw datgan eich hun yn fethdalwr.

Methdaliad yw gorchymyn llys y gallwch wneud cais amdano os ydych mewn dyled. Ar ôl i chi ddatgan eich hun yn fethdalwr, nid oes rhaid i chi ddelio â'r bobl yr ydych mewn dyled iddynt (eich **credydwyr**). Mae swyddog a elwir yn **Dderbynnydd Swyddogol** yn cymryd rheolaeth o'ch arian a'ch eiddo, ac yn delio â'ch credydwyr.

Gall rhywun yr ydych mewn dyled iddo/iddi wneud cais i'ch datgan yn fethdalwr hyd yn oed os nad ydych eisiau hyn.

Cofiwch, efallai nad methdaliad yw eich unig opsiwn ac mae'n bosib nad hwn yw'r dewis gorau ar eich cyfer chi.

Un o'r opsiynau eraill yw **gorchymyn rhyddhad dyledion**. Gallwch wneud cais am orchymyn rhyddhad dyledion os oes gennych ddyledion ac os yw eich incwm yn is na lefel penodol. Mae'n opsiwn rhatach na methdaliad. I gael rhagor o wybodaeth amdano, gweler gwaelod y daflen ffeithiau hon.

Os ydych yn wynebu methdaliad, bydd angen cyngor arbenigol arnoch (gweler Cymorth Ychwanegol ar waelod y daflen ffeithiau hon).

Beth yw manteision methdaliad

Mae rhai o fanteision methdaliad yn cynnwys y canlynol:

- Mae'n ysgafnhau'r baich ariannol oherwydd ni fydd angen i chi ddelio â'ch credydwyr
- Mae gennych ganiatâd i gadw rhai pethau penodol, megis nwyddau'r cartref a swm rhesymol o arian
- Pan fydd y gorchymyn methdaliad yn dod i ben, gallwch ddechrau o'r newydd. Mewn sawl achos, gall hyn ddigwydd ar ôl blwyddyn
- Mae'n rhaid i gredydwyr atal bron pob achos llys sy'n ymwneud â chael eu harian yn ôl yn dilyn y gorchymyn methdaliad (ond mewn rhai achosion, gallai'r beilïaid dal gymryd eich eiddo)
- Fel arfer gellir dileu eich dyledion.

Beth yw anfanteision methdaliad

Mae rhai o anfanteision methdaliad yn cynnwys y canlynol:

- Fe fydd yn costio hyd at £700 i ddatgan eich hun yn fethdalwr (weithiau mwy, os ydych yn defnyddio cyfreithiwr)
- Tra'ch bod yn fethdalwr, ni allwch geisio am fwy o gredyd

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

- Os ydych yn berchen ar eich cartref, mae'n bosib y bydd angen i chi ei werthu (ond efallai y gallwch wneud cais i'ch awdurdod lleol am gael eich ailgartrefu)
- Mae'n bosib y bydd angen i chi werthu ychydig o'ch eiddo, fel arfer byddwch yn colli eich car a'ch eitemau moeth
- Ni fydd rhai proffesiynau yn eich caniatáu i barhau i weithio os ydych yn fethdalwr
- Os ydych yn berchen ar fusnes, mae'n debygol y bydd y Derbynnydd Swyddogol yn cau eich busnes, diswyddo'ch gweithwyr a gwerthu'ch asedau
- Gall methdaliad effeithio ar eich statws mewnfudiad
- Ni allwch gadw eich methdaliad yn breifat. Caiff rhestr o fethdalwyr ei chyhoeddi ar y rhyngrwyd a gallai eich achos chi gael ei gyhoeddi yn eich papur newydd lleol
- Hyd yn oed pan nad ydych bellach yn fethdalwr, mae'n bosib y bydd gorchymyn arall, o'r enw **gorchymyn cyfyngiad methdaliad**, yn cael ei wneud yn eich erbyn. Gwneir y gorchmynion hyn, er enghraifft, os nad oeddech wedi cydweithredu â'r Derbynnydd Swyddogol, neu roeddech wedi mynd i ddyled yn ymwybodol nad oeddech yn gallu fforddio'r ad-daliadau. Gallai'r gorchmynion hyn bara 15 mlynedd a byddant yn cyfyngu ar eich materion ariannol
- Hyd yn oed pan nad ydych bellach yn fethdalwr, mae yna rai dyledion megis ffioedd y llys a benthyciadau myfyrwyr na fydd yn cael eu dileu.

Sut i ddatgan eich hun yn fethdalwr

Os ydych yn penderfynu datgan eich hun yn fethdalwr, bydd angen i chi wneud cais i'r llys. **Cyn i chi wneud hyn, sicrhewch fod gennych ddigon o arian ar gyfer eich treuliau dyddiol** oherwydd bydd eich cyfrifon yn cael eu rhewi unwaith y bydd y gorchymyn methdaliad yn cael ei wneud.

I wneud cais am fethdaliad, bydd angen i chi gymryd y camau canlynol:

- Dod o hyd i'r llys cywir. Fel arfer, y llys sirol yn yr ardal yr ydych wedi byw ynddi am y chwe mis diwethaf (weithiau, gall fod yn yr ardal lle rydych yn gweithio). Yn Llundain, yr Uchel Lys ydyw. Bydd unrhyw lys sirol lleol neu'r Uchel Lys yn gallu dweud wrthych ba lys yw'r un cywir ar eich cyfer chi.

- Sicrhewch fod gennych ddigon o arian ar gyfer y **blaendal** (£525). Ni fyddwch yn cael yr arian hwn yn ôl. Efallai y bydd ffi arall o £150 ond, yn dibynnu ar eich amgylchiadau, gallai'r llys leihau'r swm hwn neu ei ddileu yn gyfan gwbl. Gofynnwch i'r llys am ffurflen EX160 a fydd yn esbonio hyn.

- Argraffwch **ddeiseb methdaliad** (ffurflen 6.27) a **datganiad materion busnes** (ffurflen 6.28) o wefan y Gwasanaeth Ansolfedd: www.bis.gov.uk/insolvency/About-us/forms/england-and-wales.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

- Llenwch y ffurflenni. Mae'n rhaid i chi restru eich credydwyr, hyd yn oed os yw'r ddyled yn cael ei wadu. Mae'n rhaid i chi roi manylion am eich cyfrif banc a chymdeithas adeiladu. Bydd gofyn i chi restru asedau ac eitemau eraill sydd â gwerth ailwerthu, er enghraifft, hynafolion. Mae'n bosib y bydd unrhyw bethau gwerthfawr yr ydych yn eu rhestru ar y ffurflen yn cael eu gwerthu

- Cymrwch y ffurflenni ynghyd â dau gopi ohonynt, y ffi a'r blaendal i'r llys, a bydd angen i chi **dyngu affidafid** er mwyn cadarnhau i'r llys bod cynnwys y ffurflenni yn wir.

Cofiwch, os ydych yn gwneud **datganiadau ffug**, neu os nad ydych yn dweud wrth y Derbynnydd Swyddogol am eich holl eiddo, mae hyn yn drosedd a gallech gael **dirwy** neu gael eich anfon i'r **carchar**. Mae hefyd yn drosedd i **guddio eiddo** neu dystiolaeth ddogfennol, neu gael gwared ar eiddo cyn i chi ddatgan eich hun yn fethdalwr.

Ar ôl i chi dyngu affidafid, mae'n bosib y bydd y llys naill ai'n trefnu amser ar gyfer y gwrandawiad, neu fe fydd yn gwrando ar eich achos yn syth. Os mai'r llys sirol sy'n ymdrin â'ch achos chi, bydd angen i chi fynychu'r gwrandawiad.

Beth sy'n digwydd pan wneir gorchymyn methdaliad

Yn ystod y gwrandawiad, bydd y llys yn penderfynu naill ai gwrthod eich cais, neu wneud gorchymyn methdaliad. Bydd y llys yn gwrthod eich cais os ydynt yn credu bod yna well ffordd o ddatrys eich problem ariannol.

Pan gaiff gorchymyn methdaliad ei wneud, fel arfer bydd eich cyfrifon banc a chymdeithas adeiladu i gyd yn cael eu rhewi yn syth a'r Derbynnydd Swyddogol fydd yn rheoli eich arian.

Bydd y Derbynnydd Swyddogol yn trefnu cyfweliad â chi. Ar ôl y cyfweliad, bydd y Derbynnydd Swyddogol yn dweud wrth eich credydwyr am eich methdaliad, ac anfon adroddiad atynt ynghyd â chrynodeb o'ch sefyllfa ariannol. Bydd eich asedau yn cael eu gwerthu i dalu eich dyledion neu ran ohonynt. Costau'r methdaliad sy'n cael eu talu'n gyntaf o'r arian sydd ar gael. Mae'r costau hyn yn cynnwys ffioedd y Derbynnydd Swyddogol am ddelio â'ch achos.

Pryd mae methdaliad yn dod i ben

Bydd eich methdaliad fel arfer yn dod i ben ar ôl blwyddyn. Gallai fod yn llai na blwyddyn os ydych yn cydweithredu'n llawn â'r Derbynnydd Swyddogol. Bydd eich Derbynnydd Swyddogol yn dweud wrthych pryd bydd y methdaliad yn dod i ben. Bydd y mwyafrif o'r dyledion na dalwyd yn cael eu dileu.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Cymorth ychwanegol

Y Gwasanaeth Ansolfedd
Llinell Ymholiadau: 0845 602 9848
Gwefan: www.bis.gov.uk

Mae ystod o wybodaeth am fethdaliad ar gael ar y wefan neu drwy ofyn.
Mae'r wybodaeth hefyd ar gael mewn ieithoedd eraill yn ogystal â Saesneg.

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Cymorth gyda dyled
- Credyd
- Delio â phobl yr ydych mewn dyled iddynt
- Y Daflen Gyllido
- Ôl-ddyledion y dreth gyngor
- Gorchmynion rhyddhad dyledion

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith.

Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 5 Medi 2011, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr